# Y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog

## Cofnodion (SFM(3)-01-09)

**Dyddiad: 1 Hydref 2009**
**Amser: 9:00 - 11:00 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar (Cadeirydd), Gorllewin Clwyd
Trish Law, Blaenau Gwent
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru
Tracey Burke, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth,
David Richards, Pennaeth Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat, Llywodraeth Cynulliad Cymru
David Hawker, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Paul Williams, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor. Enwebwyd Darren Millar ac fe'i etholwyd.

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Janice Gregory. Roedd Val Lloyd yn dirprwyo ar ei rhan.

### Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sefyllfa economaidd bresennol

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Brif Weinidog Cymru a'i swyddogion i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i roi sylwadau agoriadol. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd Prif Weinidog Cymru i ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

Ffigurau am nifer y bobl a dderbyniodd gymorth drwy'r rhaglen ReACT ar ddiwedd mis Medi 2009

Rhagor o wybodaeth am hirhoedledd a chynaliadwyedd swyddi a ganfuwyd drwy'r cynllun ReAct.

Gwerthusiad o effeithiolrwydd hirdymor y cynllun ReAct yn enwedig o ystyried y cynlluniau mwy y mae wedi'u cynnwys fel Alwminiwm Môn

Ffigurau am nifer y diswyddiadau dilynol i'r rhai hynny a oedd wedi cael cymorth drwy'r cynllun ProAct

Ffigurau am nifer yr ymholiadau ynghylch Cymorth Hyblyg i Fusnes yn ystod 2009

Gwybodaeth am ganlyniadau'r arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid â'r Cymorth Hyblyg i Fusnes.

Rhagor o wybodaeth am unrhyw werthusiad o redeg y gwasanaeth Cymorth Hyblyg i Fusnes yng Nghanolbarth Cymru.

### Eitem 4: Yr hinsawdd economaidd bresennol a'r effaith ar ymrwymiadau allweddol Cymru'n Un

4.1 Ymatebodd Prif Weinidog Cymru i gwestiynau gan y tystion am yr hinsawdd economaidd bresennol a'i heffaith ar ymrwymiadau allweddol Cymru'n Un.